Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Y tîm prentisiaethau

## Diweddariad: Chwefror 2026

## Diweddariadau i'r Fframwaith

Ychwanegu cymhwyster at Y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol

- Lefel 4 - Tystysgrif mewn Marchnata Proffesiynol a Digidol C00/5080/4 610/4077/0 Sefydliad Siartredig Marchnata

Cymwysterau wedi'u hychwanegu at Gwallt a Harddwch:

- Diploma Lefel 2 ar gyfer Gweithwyr Gwallt Proffesiynol - Gwaith Barbwr 610/5932/8 C00/5256/2 Sgiliau VTCT

- Diploma Lefel 3 ar gyfer Gweithwyr Gwallt Proffesiynol Uwch a Chreadigol 610/5933/X C00/5256/3 Sgiliau VTCT

**Lefel 2: llwybrau adeiladu**

Ar ôl siarad â darparwyr prentisiaethau, diwydiant a dysgwyr, bydd llwybrau prentisiaethau Lefel 2 mewn gosod brics, gwaith coed ar safleoedd, sgaffaldio a chynnal a chadw adeiladau ar gael yn nes ymlaen eleni. Mae'r cyrsiau yn cael eu cyflwyno gan Medr ar ôl cael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Ymgynghoriad ar y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru

Cyhoeddir dogfen lawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Medr ddiwedd mis Chwefror. Cyhoeddir crynodeb lefel uchel o'r ymatebion ochr yn ochr â hyn hefyd.

## Enwau Sectorau'r Fframwaith Prentisiaethau

Ystyriwyd nifer ac enwau'r sectorau yn rhan o'r ymgynghoriad uchod. Gan gydnabod y sylwadau a gawsom, byddwn yn lleihau nifer y sectorau o 23 i 18. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn colli unrhyw sectorau, ond ein bod yn hytrach yn cyfuno rhai ohonynt.

Dyma fydd y sectorau o fis Ebrill 2027 ymlaen:

- Gofal Iechyd, Cymdeithasol a Phlant
- Peirianneg
- Gweithgynhyrchu
- Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau
- Gwasanaethau Rheoli, Busnes a Manwerthu
- Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelu
- Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar
- Arlwyo a Lletygarwch
- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu
- Digidol
- Gwallt a Harddwch
- Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Gofal Anifeiliaid
- Trafnidiaeth, Moduro a Logisteg
- Gwyddoniaeth ac Ynni
- Bwyd a Diod
- Gwasanaethau Eiddo
- Chwaraeon a Hamdden

**Cyswyllt:** prentisiaethau@medr.cymru